

**Nadolig Plentyn yng Nghymru  
Dyfyniadau Iaith Ffigurol**

<p>Yn ogystal â chael ei ysgwyd o fwcedi gwyngalch i lawr o'r awyr, fe heidiau allan o'r ddaear, fe nofiai, fe ddihangai o freichiau a dwylo a chyrrff y coed.</p>	<p>Roedd sŵn y gwynt trwy'r coed fel sŵn hen ddynion annifyr oedd efallai'n berchen traed-hwyaden ac yn trigo mewn ogofâu.</p>
<p>Ac fe ganent eu newyddion dros dref mewn rhwymau, dros ewyn-wedi-rhewi y bryniau powdr a hufen iâ, dros glecian y môr.</p>	<p>I mewn â'm llaw i belen wlân wen y gwyliau sy'n canu fel clychau .</p>
<p>a Mrs Prothero yn darogan difrod fel crïwr Pompeii</p>	<p>Fe aeth yn ei fwtias rhewglwm fel dyn ar slabiau siopwr pysgod, gan ysgwyd ei fag fel crympyn camel wedi rhewi, gan droi'r gongl yn chwil ar untroed, a Duw, roedd e wedi mynd.</p>
<p>Sgarffiau sebra a'u defnydd fel sidan gludiog y gellid eu tynnu i lawr at eich sgidiau; capiau i'ch dallu fel gorchuddion tebot clytiog</p>	<p>Fe dyfai'r eira dros nos ar deau'r tai fel tadcu o fwsogl pur, gan fân-batrymu'r waliau fel eiddew a disgyn ar y postman a agorai'r llidiart, fel storm fud, ddi-deimlad o gardiau Nadolig, gwyn, toredig.</p>
<p>...pan oedd bleiddiaid yng Nghymru, ac adar lliw peisiau gwlanen-goch yn 'sgubo heibio'r bryniau oedd ar ffurf telynau...</p>	<p>Pan ddôi bachgen ataf o lôn-ochr eiraog yr un ffunud â mi, blaen pinc ei sigarét ac olion piws hen lygad-du, hyderus fel asgell arian, yn crechwenu wrtho'i hun.</p>
<p>Dewch â'r gor-ddweud allan nawr, y chwedlau a adroddid wrthym ger y tân, a'r golau nwy yn swigennu fel deifiwr. Hwtiai ysbrydion fel tylluanod drwy'r hwyrnosau hir pan na feiddiwn edrych dros f'ysgwydd.</p>	<p>Maen nhw'n aros ar ymylon llafnau iâ y tonnau rhewi-pysgod..</p>